



Asesiad o Ddatganiad Amgylcheddol

gan Richard James BSc (Anrh) MSc
MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion
Cymru

Dyddiad: 26/02/2026

Assessment of Environmental Statement

by Richard James BSc (Hons) MSc MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 26/02/2026

Cyf: CAS-03018-G7G6H7

Cyfeiriad y safle: Parc Ynni Mynydd Tŷ Talwyn, wedi'i leoli tua 5km i'r gogledd-orllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, 4.5km i'r gogledd-ddwyrain o'r Pîl, a 2km i'r gorllewin o Don-du.

- Mae'r Datganiad Amgylcheddol sy'n destun yr asesiad hwn wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r achos uchod yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd).
- Gwneir y cais gan Galileo 03 Limited.

Cyflwyniad

- Mae Datganiad Amgylcheddol (DA) wedi cael ei baratoi i gefnogi cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad arno.
- Mae'r datblygiad a gynigir yn ddatblygiad y mae Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn berthnasol iddo (datblygiad AEA) o fewn ystyr y rheoliadau. Lluniwyd y DA yn dilyn Cyfarwyddyd Cwmpasu, dyddiedig 11 Ebrill 2024 (y Cyfarwyddyd Cwmpasu), a gyhoeddwyd ar ran Gweinidogion Cymru.
- Roedd y Cyfarwyddyd Cwmpasu yn ei gwneud yn ofynnol i'r DA fynd i'r afael â'r materion canlynol:
 - Bioamrywiaeth
 - Yr Hinsawdd
 - Treftadaeth Ddiwylliannol
 - Tir a Phriddoedd
 - Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol
 - Sŵn a Dirgryndod
 - Traffig a Thrafnidiaeth
 - Effeithiau Cronnol

Y Datblygiad a Gynigir

4. Ar y ffurflen gais, disgrifir y datblygiad a gynigir fel gosod Parc Ynni sy'n cynnwys hyd at 6 thyrbîn gwynt a seilwaith ategol. Mae'n cynnwys sylfeini tyrbinau, lloriau caled a mannau codi ar gyfer craeniau, paneli solar ffotofoltäig, gwrthdroyddion a thrawsnewidyddion, amgaefa is-orsaf gydag adeilad rheoli, ffensys a theledu cylch cyfyng, traciau mynediad wedi'u huwchraddio a rhai newydd, croesfannau cyrsiau dŵr a phiblinellau, cyffyrdd priffyrdd a gwaith adfer priffyrdd, ceblau tanddaearol, gwrthgloddiau cysylltiedig i alluogi gwaith adeiladu, draenio cysylltiedig, tirlunio, mesurau lliniaru/gwella ecolegol, amgaefeydd adeiladu dros dro a gwaith/seilwaith ategol cysylltiedig arall.
5. Cynigir llwybr troed caniatol ar hyd rhan o'r traciau mynediad ar y safle a byddai cyfraniadau Adran 106 yn cael eu gwneud gan yr ymgeisydd ar gyfer gwelliannau i Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC).

Cyflawnrwydd Datganiadau Amgylcheddol

6. Nod Datganiad Amgylcheddol (DA) yw darparu adroddiad systematig a gwrthrychol ar yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad a gynigir, gan gynnwys digon o wybodaeth i wirio'r casgliadau a nodi ffynhonnell y wybodaeth a ddarperir. Mae Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau 2017 yn pennu'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn DA. Mae fy asesiad o gyflawnrwydd wedi'i seilio ar y gofynion hyn.

Y Datganiad Amgylcheddol

7. Cyflwynir y DA mewn pedair cyfrol gyda phenodau pwnc yn ymdrin â'r pynciau a restrir yn y Cyfarwyddyd Cwmpasu uchod:
 - Cyfrol I – Crynodeb Annhechnegol;
 - Cyfrol II – Prif Ddatganiad Ysgrifenedig;
 - Cyfrol III – Atodiadau Technegol Ategol; a
 - Cyfrol IV – Ffigurau a Chynlluniau Ategol.
8. Mae'r DA wedi'i strwythuro a'i gyflwyno'n dda, gyda chroesgyfeirio da sy'n galluogi llywio hawdd rhwng y dogfennau. Mae pob pennod pwnc yn y DA yn cynnwys ymatebion wedi'u rhestru i ofynion y Cyfarwyddyd Cwmpasu a sylwadau o'r ymgynghoriad.

Disgrifiad o'r Datblygiad

9. Mae safle'r cais yn cynnwys tua 578 hectar o ucheldir gwledig sy'n dir pori yn bennaf, yn gyfagos i gwm coediog Craig yr Aber. Mae dynodiadau amgylcheddol cenedlaethol a rhyngwladol wedi'u nodi, gyda thri safle Ardal Cadwraeth Arbennig o fewn tua 5 km i'r safle, pedwar safle dynodedig anstatudol a phedair Heneb Gofrestredig o fewn y safle. Mae ffordd yr A4063 yn rhedeg yn gyfagos i ffin ddwyreiniol y safle ac mae priffordd dosbarth C Ffordd-y-Gyfraith yn rhedeg trwy'r safle. Mae 22 o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y safle fel y dangosir yn Ffigur 13.1. Mae'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Ucheldiroedd y Gorllewin fel y'i nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2018 – 2033) ac ATA Margam, fel y'i nodir yng Nghynllun Lleol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026).
10. Mae Pennod 2 y DA yn disgrifio'r cynnig ac fe'i cefnogir gan nifer o Ffigurau sy'n rhoi manylion gosodiad y safle a chydannau unigol y cynllun. Byddai pum tyrbîn wedi'u lleoli'n ganolog o fewn y safle, wedi'u cysylltu gan draciau mynediad o'r briffordd gyhoeddus. Byddai'r paneli solar wedi'u

rhannu'n nifer o leiniau ar wahân tuag ymylon deheuol, gorllewinol a gogleddol y safle. Byddai'r chweched tyrbîn wedi'i leoli o fewn y grŵp gorllewinol o baneli solar a byddai wedi'i wahanu oddi wrth weddill y safle gan gwm coediog Craig yr Aber. Byddai gan y tyrbînau uchafswm uchder o 200m a diamedr rotor o 162m, byddai pob tyrbîn â chraen cysylltiedig a llawr caled ar gyfer gosod deunyddiau, a man troi ar y trac mynediad. Rhagwelir y byddai'r paneli solar wedi'u gosod ar y ddaear ac y byddent yn mesur hyd at 3m o uchder. Byddai adeilad trawsnewidyddion/gwrthdroyddion cysylltiedig ar gyfer pob arae o baneli, a ffens berimedr 2.4m o uchder a chamêrau teledu cylch cyfyng wedi'u gosod ar bolion 3.6m o uchder. Gwneir cais am lwfans microleoli o 50m ar gyfer y tyrbînau a'r seilwaith ategol. Cynigir llwybr troed caniataol ar hyd rhan o'r traciau mynediad ar y safle er mwyn gwella mynediad.

11. Byddai is-orsaf i gysylltu'r tyrbînau a'r paneli solar i'r rhwydwaith trydan wedi'i lleoli tuag at ochr ogledd-orllewinol y safle, yn gyfagos i'r briffordd. Byddai hefyd wedi'i hamgylchynu gan ffens berimedr 2.4m o uchder, gyda chamêrau teledu cylch cyfyng wedi'u gosod ar bolion 3.6m o uchder. Byddai ceblau trydan tanddaearol yn cysylltu'r tyrbînau gwynt, y paneli solar ffotofoltäig a'r is-orsaf, a byddent, yn gyffredinol, wedi'u gosod mewn ffosydd wrth ymyl y traciau mynediad.
12. Mae Atodiad 4.1 yn darparu asesiad lefel uchel ar gyfer y cysylltiad grid a ragwelir, a fyddai'n destun cais ar wahân i'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu. Mae'r Ymgeisydd wedi sicrhau cysylltiad i is-orsaf y Pîl sydd wedi'i lleoli tua 3 km i'r de-orllewin o'r safle. O'r is-orsaf ar y safle, byddai'r llwybr yn teithio tua'r de ar hyd Ffordd-Y-Gyfraith, hyd at y gyffordd â New Road lle byddai'n parhau tua'r gorllewin ar hyd Crown Road a Heol y Glo hyd at Glan Yr Afon Road, lle byddai'n parhau tua'r de i gysylltu ag Is-orsaf y Pîl.
13. Ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin, byddai dau bwynt mynediad newydd i'r safle yn cael eu creu o'r A4063 Heol Maesteg i'r gogledd-ddwyrain ac o New Road i'r de o'r safle. Byddai'r olaf ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin yn unig sy'n dod i mewn i'r safle. Mae Atodiad 12.3 yn darparu manylion y mynedfeydd arfaethedig ac mae Ffigur 2.17 yn darparu lleoliad mannau gor-reddeg ar briffyrdd. Byddai Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin yn cael eu llwybro ar hyd yr M4 o Abertawe, cyn troi tua'r gogledd wrth Gyffordd 36. Byddai gwaith priffyrdd sy'n ofynnol ar gyfer hwyluso cyflenwi Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin yn destun cytundebau a cheisiadau ar wahân i'r Awdurdod Lleol.
14. Byddai'r cynnig yn darparu tua 94.43 ha o gynefinoedd newydd a chynefinoedd wedi'u gwella, i gefnogi rhywogaethau ar y safle gan gynnwys adar sy'n nythu, ystlumod, pathewod, ffyngau glaswelltir, infertebratau a mamaliaid.
15. Rhagwelir cyfnod adeiladu o 24 mis, sy'n cwmpasu gwaith paratoi'r safle gan gynnwys uwchraddio mynedfeydd a chroesfannau, paratoi ar gyfer tyrbînau, eu danfon a'u codi, ac wedyn, adeiladu, danfon a chodi'r seilwaith solar. Amcangyfrif mai'r nifer uchaf o staff yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod y gwaith adeiladu fyddai tua 45. Mae'n debygol y bydd niferoedd brig y gweithlu'n bresennol dros gyfnod o 2 fis tuag at ddiwedd y cyfnod gwaith sifil.
16. Disgwylir y bydd cyfanswm capasiti o tua 93.5 MW gan y cynnig, gyda 43 MW o'r tyrbînau a 50.5 MW o'r paneli solar. Ei oes weithredol ddisgwyliedig yw 50 mlynedd o'r dyddiad comisiynu. Rhoddir disgrifiad byr o'r cynllun datgomiynu, a fyddai'n cynnwys datgymalu a symud y tyrbînau, y paneli solar ac offer trydanol ac adfer lloriau caled. Er mwyn osgoi aflonyddwch diangen i'r tir, byddai traciau a cheblau tanddaearol, yn gyffredinol, yn cael eu gadael yn eu lle.
17. Byddai tair amgaefa adeiladu dros dro gyda chyfleusterau lles yn cael eu lleoli ar hyd y trac mynediad o'r fynedfa ogledd-ddwyreiniol. Yn gyffredinol, bydd priddoedd wyneb yn cael eu tynnu a'u pentyrru, ac yna byddai'r wyneb yn cael ei gapio â geoffabrig ac agregau. Fodd bynnag, dylid

nodi'r arwyneb hwn ar Ffigurau 2.12a-b. Hefyd, dylid egluro hydreddedd y cyfansoddion adeiladu, a dylid darparu manylion trefniadau addas ar gyfer draenio dŵr wyneb.

18. Mae Atodiad 2.1 '*Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu Amlinellol*' yn nodi y bydd carthion toiledau yn cael eu storio dros dro mewn tanciau carthion a gaiff eu gwagio'n rheolaidd gan gludydd gwastraff ardystiedig. Gan y cynigir cyfleusterau lles mewn mwy nag un Amgaefa Adeiladu, dylid cadarnhau nifer a lleoliad y tanciau carthion. Dylid cadarnhau hefyd a oes unrhyw gynnig ar gyfer gadael dŵr wedi'i drin i dreiddio i'r ddaear, gan ddarparu manylion draenio, os felly.
19. Cynigir dwy groesfan cyrsiau dŵr o fewn y safle, gydag un ohonynt er mwyn hwyluso'r fynedfa ogleddol, a chroesfan Nant Cwm-bach i hwyluso'r trac mynediad mewnol, a dangosir eu lleoliadau yn Atodiad 6.1 '*Asesiad Sylfaenol o Groesfannau Cyrsiau Dŵr*'. Cynigir adeiladu'r croesfannau hyn ar ffurf pont un rhychwant neu gwlfertiau blwch/bwa diwaelod. Fodd bynnag, cyfeirir hefyd at groesfannau eraill sy'n llai na 2m o led, a nifer o bibellau nwy sy'n mynd trwy'r safle, a gwaith tanddaearu llinellau uwchben ger Cwm Rhisga. Er bod manylion dylunio dangosol wedi'u darparu yn Ffigurau 2.15 a 2.16, a dangosir lleoliad y cyrsiau dŵr yn Ffigurau 6.1-6.5 (gan gynnwys y rhifau hynny), dylid cadarnhau, ar gynllun, lleoliad a maint yr holl groesfannau a'r gwaith tanddaearu o fewn y safle, a dylid darparu asesiad llawn o effeithiau amgylcheddol y gwaith hwn ym mhenodau pwnc perthnasol yn y DA.
20. Felly, nid yw'r disgrifiad o'r datblygiad yn foddhaol.

Disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol

21. Mae Pennod 3 y DA yn nodi'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar leoliad y cynnig, gyda dadansoddiad o gyfyngiadau, polisi cynllunio, pwyntiau mynediad, cyflwr y tir, a defnyddiau presennol.
22. Mae'n crynhoi pedwar iteriad dylunio. Llywiwyd y Cyfarwyddyd Cwmpasu gan Gynllun A, a oedd yn cynnwys deg tyrbin hyd at 230m o uchder a phaneli solar ffotofoltäig, ac arwynebedd safle o tua 814ha. Roedd Cynllun B yn cynnwys pum tyrbin hyd at 200m a phaneli solar ffotofoltäig a System Storio Ynni Batri. Roedd Cynllun C yn cynnwys y cynnig a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio, gyda chwe thyrbîn hyd at 200m o uchder a phaneli solar ffotofoltäig, ac arwynebedd safle llai o 580ha. Cynllun D yw'r cynnig sy'n cael ei ystyried o dan y cais hwn, ac ymhlith pethau eraill, mae wedi dileu'r System Storio Ynni Batri, dileu/adleoli rhai paneli solar ffotofoltäig, ac adleoli'r is-orsaf. Mae'r rhesymau dros yr iteriadau dylunio hyn yn amlwg ac maent yn ymateb i gyfyngiadau seilwaith ac amgylcheddol a nodwyd, wrth i waith arolygu ac ymgynghoriadau pellach gael eu cynnal.
23. Mae'r ystyriaeth o'r prif ddewisiadau amgen yn foddhaol.

Disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt

24. Mae'r DA wedi'i ategu a'i lywio gan gyfres gynhwysfawr o arolygon a ffigurau, gan gynnwys astudiaethau sy'n esbonio'r amodau sylfaenol ac effeithiau tebygol y datblygiad a gynigir.
25. O fewn Pennod 10 y DA, Ecoleg Ddaearol, mae Tabl 10.6 yn crynhoi'r gwaith arolygu a gwblhawyd hyd yma. Fodd bynnag, wrth drafod Asesiadau Clwydo Rhagarweiniol, mae'n datgan eu bod wedi'u cynnal ym mis Ionawr 2025, ond mae Atodiad 10.1 '*Adroddiad Ecolegol Sylfaenol*' yn nodi eu bod wedi'u cynnal ym mis Ionawr 2022, ym mharagraff 2.9.3. Mae amseriad yr Arolygon Gweithgarwch Ystlumod yn Nhabl 10.6 (2024) yn wahanol i'r amseriad yn Atodiad 10.1 Tabl 7, sy'n cyfeirio at 2023 ar gyfer lleoliadau'r tyrbinau gwynt. Mae Tabl 10.6 yn nodi bod

arolygon dyfrgwn a llygod y dŵr wedi'u cynnal yn 2023 a 2024, ond mae Atodiad 10.1 paragraff 2.11.7 yn cyfeirio at dymor 2022. Felly, mae angen egluro amseriadau'r arolygon hyn.

26. Mae mwyafrif y gwaith arolygu a ddefnyddiwyd i lywio Pennod 11 Adareg y DA bellach yn llawer hŷn na 2 flwydd oed. Er bod Penodau 10 ac 11 y DA yn rhoi disgrifiad byr o'r amodau sylfaenol ar gyfer y dyfodol, mae angen esboniad manwl pellach ynghylch pam mae'r arolygon, sydd bellach dros 2 flwydd oed, yn dal i gael eu hystyried yn dystiolaeth gadarn ar gyfer amodau sylfaenol y safle, ar gyfer Penodau 10 ac 11 y DA.
27. O ganlyniad, nid yw'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Methodoleg Asesu

28. Mae Pennod 4 y DA yn disgrifio'r dull asesu cyffredinol a ddefnyddiwyd, sy'n cynnwys cymysgedd o asesiadau desg ac asesiadau ar y safle. Esbonnir rhagor o fanylion am y methodolegau penodol i'r pwnc ym mhob pennod asesu, gyda ffigurau ac atodiadau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys diffiniadau ar gyfer sensitifrwydd derbynyddion, maint yr effeithiau a'u harwyddocâd, a chyfeirir at ganllawiau ymarfer lle bo hynny'n berthnasol. Ar gyfer Penodau 10 ac 11 y DA, esbonnir pam y rhoddir mwy o bwyslais, wrth asesu effeithiau ar dderbynyddion ecolegol ac adaregol, ar farn broffesiynol yr awduron, a gafodd eu llywio gan wybodaeth berthnasol o arolygon ac ymchwil wyddonol.
29. Ar gyfer pob pwnc yn y DA, mae'r newid amgylcheddol tebygol sy'n deillio o'r cynnig wedi'i nodi a'i gymharu ag amodau sylfaenol presennol perthnasol safle'r cais a'i amgylchoedd. Mae'r asesiadau'n seiliedig ar raddfa fwyaf y cynnig a'r effeithiau gwaethaf posibl rhesymol o ran eu maint.
30. O fewn pob pennod pwnc yn y DA, ystyriwyd effeithiau cronol y cynnig ar y cyd â chynigion eraill yn yr ardal ehangach. Mae'r Parth Dylanwad yn amrywio yn ôl pob pwnc ond mae'n ymestyn hyd at 35km. Mae'r prosiectau hynny sydd wedi'u cynnwys ar gyfer eu hystyried yn cwmpasu'r rhai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu; prosiectau sydd wedi'u caniatáu ond heb eu gweithredu hyd yma; prosiectau sydd wedi'u cyflwyno, ond heb eu penderfynu hyd yma; cynlluniau sydd wedi'u hapelio ond heb eu penderfynu hyd yma, a'r prosiectau y cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu AEA ar eu cyfer. Darperir rhestr o'r cynigion a ystyriwyd yn Atodiad 4.9, ac o'r rhain, darperir rhestr fer o gynigion i'w hystyried yn Nhabl 4.7 y DA. Mae effeithiau prosiectau ar y cyd wedi'u crynhoi ym Mhennod 15 y DA.
31. Mynegwyd arbenigedd awduron y DA a'r adroddiadau ategol ar arolygon/astudiaethau.
32. Disgrifir methodoleg yr AEA yn glir yn y DA.

Disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd

33. Mae effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau cronol, wedi'u hasesu i raddau helaeth yn unol â'r fethodoleg a nodir ym mhob pennod, yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cynnig.
34. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddyd Cwmpasu ID.9 yn ei gwneud yn ofynnol ystyried effeithiau fflachiadau a llacharedd ar dderbynyddion ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Nid yw hyn wedi'i ddarparu yn Atodiad 4.6 '*Astudiaeth Fflachiadau a Llacharedd Solar Ffotofoltäig*' nac fel rhan o Bennod 8 Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol y DA.

35. Felly, nid yw effeithiau arwyddocaol y datblygiad ar yr amgylchedd wedi'u hasesu'n systematig ac nid ydynt wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Mesurau atal a/neu liniaru

36. Mae'r DA yn disgrifio'r mesurau lliniaru sydd naill ai wedi'u sefydlu yn nyluniad y cynllun neu sydd wedi'u cynnwys fel mesurau ychwanegol, gydag effeithiau gweddilliol dilynol wedi'u hystyried. Mynegir y graddau y disgwylir i'r mesurau hyn liniaru'r effeithiau gweddilliol sy'n deillio o'r cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.
37. Mae'r mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y DA yn foddhaol.

Arwyddion o unrhyw anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol

38. Mae cyfyngiadau ac anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth wedi'u nodi'n fyr ym mhob pennod pwnc. Mae'r rhagdybiaethau a wnaed yng ngoleuni'r anawsterau hyn wedi'u nodi'n glir yn y DA. Felly, mae cyfyngiadau ac anawsterau a wynebwyd wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Darparu Crynodeb Annhechnegol

39. Darparwyd crynodeb annhechnegol ac mae'r wybodaeth sydd ynddo yn ddigonol ar gyfer y DA a luniwyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen diweddarau hwn i adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani, pe bai hyn yn arwain at newidiadau nodedig i'r asesiad dilynol o effeithiau a'u harwyddocâd.

Rhestr Gyfeirnod

40. Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i lywio'r DA wedi'u cyfeirnodu'n briodol ym mhenodau ac atodiadau'r DA, lle bo hynny'n briodol.

Casgliadau Cyffredinol

41. Deuaf i'r casgliad bod rhaid ceisio rhagor o wybodaeth (a nodir yn Atodiad 1) er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodir uchod yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gan Galileo 03 Limited ar 27 Tachwedd 2025.

Richard James

Arolygydd

Atodiad 1

Gofynnaf yn ffurfiol drwy hyn am ragor o wybodaeth o dan Reoliad 24 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) er mwyn i'r Datganiad Amgylcheddol roi, i'r sawl sy'n penderfynu, casgliad rhesymegol ar effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad a ddisgrifir yn y cais.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol fel a ganlyn:

- Dylid nodi manylion arwyneb yr amgaefeydd adeiladu ar Ffigurau 2.12a-b. Dylid egluro hydreddedd yr amgaefeydd adeiladu a dylid darparu'r manylion ar gyfer draenio dŵr wyneb.
- Dylid cadarnhau nifer a lleoliad y tanciau carthion ac a oes unrhyw fwriad y bydd dŵr wedi'i drin yn treiddio i'r ddaear, a dylid darparu'r manylion draenio os felly.
- Dylid cadarnhau, ar gynllun, lleoliad a maint pob croesfan cyrsiau dŵr a phibellau nwy a gwaith tanddaearu llinellau uwchben o fewn y safle a dylid darparu asesiad llawn o arwyddocâd effeithiau amgylcheddol y gwaith hwn ym mhenodau pwnc perthnasol y DA.
- Dylid darparu eglurhad ynghylch amseriad yr arolygon sydd wedi llywio Pennod 10 y DA, gan fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng Tabl 10.6 Pennod 10 ac Atodiad 10.1 y DA.
- Mae angen esboniad manwl ar gyfer Penodau 10 ac 11 y DA o ran pam mae'r arolygon sydd bellach dros 2 flwydd oed yn dal i gael eu hystyried yn dystiolaeth gadarn ar gyfer amodau sylfaenol y safle.
- Dylid ystyried arwyddocâd effeithiau fflachiadau a llacharedd ar dderbynyddion ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr ardal yn Atodiad 4.6 '*Astudiaeth Fflachiadau a Llacharedd Solar Ffotofoltäig*'.
- Crynodeb Annhechnegol newydd i adlewyrchu'r newidiadau a wneir i'r DA, os oes angen.